

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

9 Ebrill 2019

Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun

**Yn bresennol:****AELODAU:**

Karen I Evans(KIE)  
Neil Foley(NF)  
Dr Paul Evans(PE)  
Sue Dick (SD)  
Mari Gaskell (MG)  
Rona Jones (RJ)  
Mark Hatch (MH)  
Shannon Gage (SG) (Is-Gadeirydd)  
Rona O'Neill (RON)  
Lindsey Davenport (LD)  
Bethan Jones (BJ)  
Geraint Parry (GP)  
Claire Armistead (CA)  
Helen Vernon (HV)

**RHAI NAD YDYNT YN  
AELODAU:**

Craig Joyce (CAJ)  
Steve Gadd (SGadd)  
Cathy Howatson (Cofnodion)  
Laura Poole (LP)  
Ian Land (IL)  
Geraint Davies (GD)  
Will Jones (WJ)  
Vicki Cotgreave (VC)  
Paul Senior (PS)  
Jane Hughes (JAH)

Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant  
Ysgol Uwchradd Prestatyn  
Ysgol Uwchradd Dinbych  
Ysgol Bodfari  
Ysgol Llywelyn  
Ysgol y Santes Ffraid - (Cadeirydd)  
Ysgol Dinas Brân  
Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd  
Tir Morfa  
Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd  
Ysgol Gwernant  
Ysgol Brynhyfryd  
Ysgol Uwchradd y Rhyl  
Bodnant

Rheolwr Cyllido Ysgolion  
Prif Gyfrifydd  
Swyddog Cyllido Ysgolion  
Rheolwr Cyllid – Clwstwr Dinbych  
Cynllunio ac Adnoddau  
Prif Reolwr Addysg  
Rheolwr Cyllid – Clwstwr Cymraeg  
Ysgol y Castell  
Prif Swyddog Cyllid a Sicrwydd  
Rheolwr Cefnogi Systemau

**Croeso**

Croesawodd Rona Jones (Cadeirydd) y grŵp.

**Roedd 14 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.**

**1. Ymddiheuriadau**

Gethin Jones – Ysgol Tremeirchion  
Bethan Cartwright – Ysgol Glan Clwyd  
Liz McClean – Cynrychiolydd Undeb Athrawon  
Huw Hilditch-Roberts - Aelod Arweiniol Addysg  
Teleri Llwyd Jones – Ysgol Borthyn  
Mae Claire Armistead wedi cymryd lle Dominic Tobin fel cynrychiolydd Clwstwr y Rhyl.

**2. Cymeradwywyd cofnodion 21/01/19 gan y fforwm – gydag SD ac SG yn eilio.**

Cynllun cyllido ysgolion - bydd hwn yn destun ymgynghoriad ar ôl i'r gwaith ddod i ben.  
Dogfen gwarged balansau ysgolion – mae'r gwaith ar hon yn dal yn mynd rhagddo. KE sy'n arwain hyn.

**3. TGCh CSDd**

Mae neges e-bost wedi ei derbyn yn ganolog gan Ysgol Tir Morfa ynglŷn â sut caiff costau Cytundeb Lefel Gwasanaeth TGCh CSDd eu cyfrifo gan nad yw'r ysgol yn teimlo bod codi yr un faint ag ysgol uwchradd arnynt yn deg iawn. Dosbarthodd KAJ gopi o'r ffigyrau i drafod y dull presennol.  
JAH – mae pob ysgol yn derbyn yr un gwasanaeth.

Mae SG yn gweithio yn adran TGCh CSDd ac mae hi o'r farn bod y costau yn cael eu cyfrifo'n deg h.y. cost cylchedau i ysgolion gwledig a'r rhai nad ydynt yn wledig.  
Gofynnodd WJ sut caiff ei ariannu. Drwy cyfandaliad yn hanesyddol? Eglurodd CAJ mai dyma'r achos.  
GD – A yw'n ddull teg neu a oes angen edrych arno?  
GP – Mae yna ddwy elfen. Ceir rhai costau sefydlog a rhai cyfnewidiol, yn seiliedig ar staffio.  
KE – Nid ydym yn gallu mynd yn ôl ddeng mlynedd pan gafodd ei sefydlu gan nad yw'r wybodaeth ar gael. Mae'n rhaid i'r fforwm ystyried a yw adolygu hyn yn werth yr amser a'r ymdrech, byddai'n rhaid i ni hefyd ystyried capasiti. Nid oes yr un pennaeth wedi herio hyn.  
SG – A ddylid ei ddyrannu ar egwyddor ysgol fach ac ysgol fawr?  
LD – Nid oes gan y rhan fwyaf o'r ysgolion arian. A ddylid newid yr ysgol arbennig yn ysgol gynradd gan na fyddai hynny'n effeithio ar ysgolion eraill yn ariannol.  
MG – Mae angen darparu eglurhad a bod yn glir ynghylch sut y caiff ei ddyrannu.  
KE – Rydym ni wedi derbyn un her gan ysgol, ac mae arnom angen ymateb sefydlog fel fforwm.  
RJ – Beth yw'r drefn ar gyfer ysgolion canol gan y bydd dwy cyn bo hir?

**CAM GWEITHREDU Sefydlu gweithgor ar gyfer un cyfarfod – gwirfoddolwyr - SGage / MG / GP / RO – bydd CH yn anfon y gwahoddiadau.**

#### 4. Cyllideb 2020/21

Rhoddodd Steve Gadd drosolwg o'r sefyllfa. Bydd y gwaith ar y cyllidebau yn dechrau 6 wythnos ar ôl cau. Mae Bwrdd Ail-lunio Cyllideb y Cyngor wedi ei sefydlu a bydd yn edrych ar arbedion, fodd bynnag nid yw'r ffigyrau yn hysbys eto.

Rhagwelir y bydd y cyllidebau yn gyllidebau arian gwastad gyda chynnydd chwyddiant a tharged tebygol ar gyfer arbedion.

Mae CSDd yn rhagweld diffyg o £5/6 miliwn ac mae'n bur debyg y bydd angen gwneud arbedion mawr. Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda rhai gwasanaethau ac mae'n bosibl y bydd targed arbedion o 5%.

Bydd penderfyniad ar fodel darparu amgen hamdden yn cael ei wneud ddiwedd mis Mai.

Gofynnodd SG a fydd y model darparu amgen yn arwain at arbedion – cadarnhaodd SGadd y bydd arbedion a'u bod wedi eu cynnwys yn y ffigyrau.

Mae cyfrifiadau ysgolion yn cynnwys chwyddiant, Trethi Annomestig Cenedlaethol a chynnydd mewn pensiwn.

KE – Y broblem wrth edrych ar doriadau cyllidebol mewn perthynas ag addysg yw bod addysg yn wasanaeth statudol. Mae KE hefyd yn pryderu ynghylch diwygiadau mewn perthynas ag ADY a'r £1.3 miliwn y mae'n gostio i leoli plant y tu allan i'r sir. Mae toriadau i gyllid TRAC hefyd yn destun pryder.

SGadd – mae chwyddiant yn cynnwys pwysau y tu allan i'r sir a gofal cymdeithasol yn y gymuned. Mae'r Bwrdd yn diogelu rhai gwasanaethau, sy'n gwneud canfod arbedion eraill yn anoddach.

RJ – Mae Steve Davies (AS) yn deall y pwysau – a yw'n bryd i'r penaethiaid fynegi eu pryderon? Mae'n rhaid i benaethiaid ac undebau amlygu hyn i Lywodraeth Cymru.

KE – mae angen trafod grantiau gyda Llywodraeth Cymru. RJ – Mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd darparu gwasanaeth sylfaenol.

MG - Mae trafodaethau wedi eu cynnal ble gwneir arbedion gan ysgolion drwy leihau i 4.5 diwrnod yr wythnos, gan ddefnyddio'r hanner diwrnod ar gyfer CPA.

A fydd y system credyd cynhwysol newydd yn lleihau prydau ysgol am ddim? Mae MG wedi derbyn llythyr gan wasanaeth arlwyo'r sir.

SGadd – Ni fydd prydau ysgol am ddim yn lleihau. Nid yw wedi gweld y llythyr y mae MG yn cyfeirio ato gan y gwasanaeth prydau ysgol. Byddwn yn gofyn i Paul Barnes a Rachel Thomas ddarparu eglurhad.

CA – Mae trafodaethau wedi eu cynnal yn ystod y Rhwydwaith Busnes a Chyllid ynglŷn â chredyd cynhwysol.

KE - Yn croesawu trafodaeth gyda phenaethiaid y tu allan i'r fforwm ynglŷn â'r model busnes a chyllid dan Unrhyw Fater Arall.

NF – Cwricwlwm newydd – mwy o anghenion ond nid yw'r toriadau yn y gyllideb yn helpu pobl / pobl ifanc.

RJ – A yw'n bryd trefnu cyfarfod ar y cyd gydag unsain?

#### 5. Balansau Ysgolion

Darparodd PS y balansau ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae'r balans a ddygwyd ymlaen o 2017/18 yn dangos diffyg o £343,000 a rhagwelir diffyg diwedd blwyddyn o £776,000. Erbyn diwedd 2018/19 rhagwelir diffyg o £1.1 miliwn.

KE – Mae yna newid mawr wedi bod yn y balansau a ragfynegydd o gyfnod 10-11 ac mae Rheolwyr Cyllid Ysgolion wedi amlygu materion mewn perthynas ag adrodd.

## **6. Cynlluniau Cronnus**

Mae yna orwariant wedi bod mewn perthynas â'r cynllun salwch (£233,000).

Gofynnodd RJ pam bod cymaint o newid ers yr adroddiad diwethaf.

Mae'r newid wedi digwydd ddiwedd mis Ionawr – Mawrth, ar ôl i'r dyddlyfrau ddod i ddwylo'r Rheolwyr Cyllid.

KE – Rydym wedi derbyn neges e-bost gan bennaeth yn holi ynghylch hyn.

Eglurodd PS y ffigyrau.

LP – Mae yna wallau codio gan New Directions. Roedd New Directions yn bresennol yn y Rhwydwaith Buses a Chyllid a chodwyd y materion.

MH – A yw wedi ei rannu?

MG – A yw wedi bod yn destun archwiliad? PS – Mae'n anodd ei fonitro gan nad ydym yn gwybod pwy sydd i fwrdd yn sâl oherwydd nad ydym yn gweithio yn yr ysgolion.

SG – A ddylai ysgolion wirio? Dylent.

KE – Mae'n ddoeth cael cytundeb i archwilio'r cynllun. Oes modd i'r Adain Archwilio ei wneud? Os caiff ei herio'n gorfforaethol, dylai llywodraethwyr roi cyfrif am y newid.

RJ – Mae Ysgol y Santes Ffraid wedi edrych ar faterion llanw mewn manylder. Llauer o waith ond byddai gweithredu yn beth da.

MH – A oes modd i ni edrych ar achos y salwch hefyd?

LD – Dylai bod llywodraethwyr yn gwneud hyn ac yn gwybod yn union beth sy'n mynd ymlaen.

HV – Ceir teimlad bod rhai o gyrsiau GwE ar gyfer penaethiaid yn cael eu cynnal ar adegau anarferol.

KE – Mae angen trafod hyn yn ogystal â'r hyn sy'n berthnasol i'w fynychu a'i gefnogi.

NF – Roedd GwE yn bresennol mewn cyfarfod clwstwr yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ond ni wnaethant ychwanegu unrhyw werth at y cyfarfod.

PE – Faint ydym ni'n talu GwE am eu gwasanaethau? Nid yw'r effaith yn dda.

RJ – Mae hyn wedi ei godi o'r blaen.

KE – Mae'r cyllid yn dod o gyllideb addysg KE, nid yw ysgolion erioed wedi cyfrannu ato.

Bydd y manylion ar gael yn y cyfarfod nesaf neu yn ystod cynhadledd y penaethiaid.

**CAM GWEITHREDU – KE i drafod y posibilrwydd o edrych ar y cynllun salwch gyda'r Adain Archwilio.**

## **7. ADY**

Nid yw ADY yn niwtral o ran cost a cheir pryderon nad oes digon o arian yn y pot. Mae'n rhaid i SBF ddeall y bil ADY newydd a'r goblygiadau – mae'n rhaid cael trafodaeth dryloyw.

SG – Mae pryderon ynghylch disgyblion nad oes ganddynt anghenion meddygol ond sydd â phroblemau eraill.

KE – yn credu nad yw plant yn derbyn diagnosis. Mae cyfarfod o'r is-grŵp ar 9 Ebrill i drafod dyraniadau cyllid AAA.

## **8. Materion yn codi o'r cyfarfodydd Clwstwr**

GP – A yw'r Grant Ysgolion Gwledig yn gyllid cylchol? Mae pawb o'r farn ei fod.

GD – Grant lleihau meintiau dosbarth – dim ond dwy ysgol sy'n gymwys.

SD – Hawliad cyfnod sylfaen – beth sy'n cael ei ariannu? Penderfynwyd y bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd cadeiryddion clwstwr.

Gofynnodd VC a oes unrhyw gyllid ar gael yn ganolog i gwrdd â threuliau teithio penaethiaid sy'n cynrychioli'r clwstwr mewn cyfarfodydd ac ati. Mae KE am edrych i mewn i hyn, ond mae'n annhebygol bod cyllid ar gael.

## **9. Unrhyw Fater Arall**

Cynaliadwyedd – mae is-grŵp wedi cyfarfod i edrych ar gyllid cynaliadwyedd ar gyfer Dinas Brân.

**CAM GWEITHREDU – IL i anfon cofnodion y cyfarfod hwnnw.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12pm.**

Draft